Mynydd y Glyn

Cylchlythyr

Fferm wynt Mynydd y Glyn

Ymgynghoriad Statudol :
25 Hydref – 9 Rhagfyr 2022

Yn dilyn canlyniadau astudiaethau amgylcheddol helaeth ac adolygiad o'r adborth o'r ymgysylltu cynnar yn hydref 2021, mae Pennant Walters wedi cynhyrchu cynigion manwl ar gyfer fferm wynt Mynydd y Glyn, 3km i'r gorllewin o Bontypridd yn Rhondda Cynon Taf (gweler y map lleoliad).

Mae'r cynigion manwl hyn yn sail i'r ymgynghoriad statudol a gynhelir rhwng 25 Hydref a 9 Rhagfyr 2022. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i chi archwilio'r cynlluniau a darparu eich sylwadau / ymatebion i'r tîm prosiect ei ystyried cyn cwblhau'r cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC/ DNS).

Bydd y cais wedyn yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w ystyried cyn i Weinidogion Cymru benderfynu arno.

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r cynigion. Mae rhagor o wybodaeth – gan gynnwys ffotogyfosodiadau sy'n dangos sut olwg fyddai ar y fferm wynt o amrywiaeth o olygfannau – ar gael yn y cais cynllunio drafft llawn, sydd ar gael i'w weld ar wefan y prosiect: www.mynydd-y-glyn.co.uk



Uchod: Cynllun lleoliad y safle

Dweud eich dweud

I ddarganfod mwy, trafod y cynigion gydag aelodau o dîm y prosiect a gweld y ffotogyfosodiadau, **dewch i un o'n harddangosfeydd cyhoeddus:**

Arddangosfeydd cyhoeddus	
Mawrth 8 Tachwedd 3 - 7pm	**Y Ffatri** Jenkin Street Porth CF39 9PP
Mercher 9 Tachwedd 3 - 7pm	**Eglwys Sant Ioan** Graig Street, Graig Pontypridd CF37 1NF
Sadwrn 12 Tachwedd 10am - 2pm	**Canolfan Gymunedol Tonyrefail** Prichard St, Tonyrefail CF39 8PA

Os nad ydych yn gallu bod yn bresennol, mae arddangosfa rithwir ar gael i'w gweld ar wefan y prosiect.

Er mai Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar y cais fferm wynt yn y pen draw, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r cymunedau lleol yn ymgyngoreion allweddol, ac rydym yn awyddus i glywed eich barn am y cynigion presennol.

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 9 Rhagfyr 2022.

Ffotogyfosodiad o'r fferm wynt arfaethedig

Y safle

Fel y diffinnir ar hyn o bryd, mae'r safle yn ymestyn i tua 208 hectar, yn cynnwys cynefin ucheldir, yn bennaf glaswelltir wedi'i wella a'i led-wella sydd wedi'i ddefnyddio ar gyfer pori amaethyddol. Byddai'r fferm wynt arfaethedig yn cael ei lleoli ar gopa a llethrau uchaf Mynydd y Glyn i'r de o Afon Rhondda.

Mae'r safle yn gorwedd o fewn Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Mynydd y Glyn a Basn Nant Muchudd, yn rhannol o fewn Ardal Tirwedd Hanesyddol Cwm Rhondda ac oddeutu 15km o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae rhannau o'r safle hefyd wedi'u lleoli o fewn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC).





Delwedd: Cynllun arfaethedig y fferm wynt

Y cynigion

Mae cynigion fferm wynt Mynydd y Glyn yn cynnwys hyd at saith tyrbin gwynt gydag uchder llafn hyd at 155m a seilwaith cysylltiedig gan gynnwys traciau fferm wynt mewnol, padiau craen, compownd adeiladu dros dro, mannau gosod a storio a seilwaith cyswllt grid, gan gynnwys ar- is-orsaf safle.

Mae gwaith iteru'r dyluniad wedi'i ddylanwadu gan swm helaeth o waith asesu ac arolygu ynghyd â modelu golygfeydd posibl o dderbynyddion sensitif lleol i leihau effeithiau posibl. O ganlyniad i'r gwaith asesu hwn, mae uchder y tyrbinau gwynt wedi'i ostwng o'r rhai a gynigiwyd yn wreiddiol (hyd at 180m).

Mae tîm y prosiect yn hyderus y gall y safle gynnwys saith tyrbin gwynt, a allai gynhyrchu hyd at 30MW o drydan. Mae'r fferm wynt wedi'i dylunio i fod ag oes weithredol o 30 mlynedd, yn allforio ynni adnewyddadwy i'r Grid Cenedlaethol.

Rhagwelir y bydd angen cais ar wahân gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer symud dodrefn priffyrdd dros dro i ganiatáu cludo tyrbinau i'r safle.

Mae Pennant Walters wedi derbyn cynnig grid gan Western Power Distribution (WPD) ar gyfer cysylltiad 33kV yn Upper Boat. Byddai'r cysylltiad yn cynnwys tua 1.5km o linell newydd ar bolion pren a 7.5km arall o dan y ddaear drwy bibellau yn y rhwydwaith priffyrdd. Er y bydd y llinell uwchben yn cael ei hasesu a'i chydsynio fel rhan o'r cais DAC, bydd y rhan dan ddaear yn ffurfio rhan o gais ar wahân gan WPD.

Ystyriaethau allweddol

Cyfleoedd a chyfyngiadau safle:
Mae nifer o ystyriaethau wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynllun arfaethedig ar gyfer fferm wynt Mynydd y Glyn.

Mae'r rhain yn cynnwys coedwigaeth, nodweddion tirwedd, safleoedd bioamrywiaeth, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ffyrdd cludo a Thir Mynediad Agored. Mae pob un ohonynt wedi helpu i lywio'r cynllun drafft sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Asesiad o'r effaith amgylcheddol:
Er mwyn helpu i lywio nifer a lleoliad y tyrbinau gwynt, llwybrau mynediad ac is-orsafoedd, rydym wedi cynnal astudiaethau ar amrywiaeth o faterion amgylcheddol a thechnegol gan gynnwys effaith tirwedd a gweledol, bioamrywiaeth, cyflwr y ddaear, sŵn ac economeg gymdeithasol.

Mae manylion astudiaethau amgylcheddol a sut maent wedi dylanwadu ar gynllun arfaethedig y fferm wynt i'w gweld ar wefan y prosiect: www.mynydd-y-glyn.co.uk

Cronfa buddion cymunedol:
Ar gyfer fferm wynt Mynydd y Glyn, rydym yn ystyried sawl ffordd wahanol o weinyddu'r gronfa a ddyrennir yn flynyddol i brosiectau lleol, cymwys. Rydym yn dal i groesawu awgrymiadauynghylch hyn wrth i ni ddatblygu cynlluniau ar gyfer y gronfa, a fydd ar gael pan fydd y fferm wynt yn weithredol.

Ynglŷn â Pennant Walters

Mae'r cynigion yn cael eu datblygu gan Pennant Walters, is-gwmni i Walters Group; cwmni lleol wedi'i leoli yn Hirwaun ac yn gweithredu'n genedlaethol.

Mae Pennant Walters wedi datblygu, adeiladu a bellach yn gweithredu chwe fferm wynt a datblygiad solar yn Ne Cymru (ar dir sy'n nodweddiadol iawn o faes glo de Cymru gyda nodweddion mwyngloddio wyneb a thanddaearol), gan gynhyrchu cyfanswm o 127MW, sy'n golygu mai nhw yw cwmni ynni adnewyddadwy cartref mwyaf Cymru.

Amserlen Ddangosol

Hydref/ gaeaf 2022	Ymgynghoriad statudol ynghylch cynllun manwl y fferm wynt arfaethedig
Gaeaf 2022	Adolygu adborth o'r ymgynghoriad a chwblhau'r cynigion/cais am DNS
Gwanwyn 2023	Cyflwyno'r cais am DNS i PEDW
Hydref/ gaeaf 2023	PEDW yn archwilio'r cais a chyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru
Gwanwyn/ haf 2024	Gweinidogion Cymru'n penderfynu ar y cais

Cysylltwch â ni*

Rhowch eich sylwadau i ni ar y cynigion ar gyfer fferm wynt Mynydd y Glyn erbyn **9 Rhagfyr 2022:**

- Cwblhewch y ffurflen adborth yn yr arddangosfa gyhoeddus neu ar-lein: www.mynydd-y-glyn.co.uk
- Ffoniwch: **01443 548032**
- E-bost: **consultation@mynydd-y-glyn.co.uk**
- Ysgrifennwch at: **Rhadbost GRASSHOPPER CONSULT** (dim angen stamp na chyfeiriad arall)

*Bydd y manylion cyswllt hyn yn eich rhoi mewn cysylltiad â Grasshopper Communications, sy'n rheoli'r ymgynghoriad.

Bydd ymateb i faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn cael ei darparu yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio a gaiff ei gyflwyno fel rhan o'r cais am DNS.

Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, byddai adeiladu fferm wynt Mynydd y Glyn yn cymryd tua dwy flynedd, felly byddai'n weithredol ac yn cynhyrchu trydan erbyn gwanwyn/haf 2027.

PENNANT WALTERS